# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR ORFFENNAF 2il, 2024

## Yn NEUADD BENTREF FFOSTRASOL am 7.30 y.h.

**Yn bresennol** Cyng. Sian Williams ( Cadeirydd ) Cyng. Emyr Jones
Cyng. Sharon Thomas Cyng. Ceri Jones
Cyng. Maldwyn Lewis Cyng. Mark Davies
Cyng. Teifi Evans Cyng. Rob Jones
Cyng. Llyr Evans

**Clerc** Rhian Jones

**1 . Ymddiheuriadau**
- Cyng.Carol Davies

.
**2. Datgan Diddordeb –** DIM

- Croesawyd Anwen Davies PCSO ardal Llandysul i ymuno gyda ni ar ddechrau'r cyfarfod. Nododd mae y problemau oedd wedi codi yn y gymuned yn ddiweddar oedd
  - Adroddiadau am alwadau domestig
  - Difrod i un drws
  - Un ddamwain ffordd
  - Tractorau yn gyrru rhy gyflym trwy'r pentrefi gwledig ( nid ydynt yn cadw at 20mya ac mae'r ffyrdd yn gul)
  - Cymdogion yn anghydweld

**3. Cofnodion**

**3.1 -** Derbyniodd bawb gopi o gofnodion mis Mehefin a chynigiodd y Cynghorydd Teifi Evans eu bod yn gywir ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ceri Jones.

.
**4.Materion yn Codi o'r Cofnodion**

**4.1 -** Mae Openreach wedi cyrraedd y rhifau angenrheidiol ar gyfer cychwyn y gwaith.
**4.2 –** Mandate Nat West – dim diweddariad ( ond gan fod y Cyng Sian Williams yn Gadeiryddes eleni – ni fydd hi yn medru arwyddio sieciau).
**4.3** – Arwydd T Llew Jones – angen cysylltu gyda Boomerang.
**4.4** – Awdit – Mae'r Gadeiryddes wedi anfon y pencyn at Awdit Cymru. Arhoswn am eu ymateb.
**4.5** - Jill Lowry – Pathways – disgwyl ymateb am bwy i wneud y siec yn daladwy.
**4.6 –** Arwyddion pentref Maesllyn dal heb gael eu gosod yn ol mewn lle.
**4.7** – Y Cyng.Sian Williams wedi derbyn rhestr o'r holl gyrsiau sydd ar gael dros fisoedd yr haf. Penderfynwyd rhannu'r cyrsiau rhwng y cynghorwyr ac adrodd yn ol i bawb yn y cyfarfodydd.

**5. Materion y Cynghorydd Sir.**

Mae'r etholiad dydd Iau y 4ydd o Orffennaf.

**6.Gohebiaeth**

**6.1** – Llywodraeth Cymru ar farn y cyhoedd am y 20mya. Mae gwefan ar gael sy'n holi'r cyhoedd – mae hwn wedi ei rannu ar dudalen Facebook Troedyraur.
**6.2** – Pwyllgor Ardal Ceredigion – newidiwyd y dyddiad ac mae wedi bod yng nghynt.
**6.3** –Gwobr Cadw Cymru'n Daclus – Mae pobl Rhydlewis yn dda am dacluso'r pentref.
**6.4** – Penderfyniad Ceredigion – Iaith yr Ysgol yn unol Gymraeg o Fedi 2025.
**6.5** – Dogfen Mai 24 – Canllawiau i gynghorau cymuned. Mae yn gyfreithlon i gynnig Awdio ond nid oes rhaid bod yn weledol. ( Mae opsiwn i'r cynhoedd ymuno mewn rhan o'r cyfarfodydd ond rhaid iddynt gysylltu gyda'r Clerc o flaen llaw i dderbyn linc). Mis Medi byddwn yn treialu linc Zoom ar Teams ar y gluniadur.
**6.6** – Mae angen cyfieithu'r Adroddiad Blynyddol. Y Clerc i gysylltu gyda Lllinos o Landyfriog.
**6.7** – Derbyniwyd e-bost wrth Melvyn Prosser yn holi am gysylltiadau gyda gwr o'r enw Ebenezer Jones.
**6.8** – Diogelu – byddwn yn holi rhywun o Geredigion i ddod i siarad gyda ni mewn cyfarfod am Ddiogelu. ( bydd huyn o fudd i bawb )
**6.9** – Y Clerc wedi cysylltu gyda lesley am gael e-bost cyngor i pob cynghorydd. Nodwyd y byddai yn ddrud iawn – angen holi am bris erbyn y cyfarfod nesaf.
**6.10** – Derbyniwyd llythyr o ddiddrdeb am fod yn Gynghorydd newydd wrth Osian Davies, mab Roger ein cyn-gynghorydd a wnaeth ymddeol o'i rol yn ddiweddar. Cynigiodd y Cyng Rob Jones ei fod yn cael ei ethol a braf fyddai gweld gwaed newydd ifanc a brwdfrydig yn ymuno gyda'r Cyngor. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Teifi Evans. Roedd pawb oedd yn bresennol yn gytun.

**7.Cynllunio** -

**7.1 –** Un wedi dod i law yn Croeslan ( A240411)
Codi 3 ty fforddiadwy – angen tai fforddiadwy yn yr ardal.
Nid oeddd unrhyw wrthwynebiad ond rhaid dilyn y canllawiau sydd ar y cais cynllunio a dim newid. Rhaid iddynt fod yn 3 ty fforddiadwy a rhaid dilyn canllawiau NRW, dwr Cymru a'r priffyrdd( o ran diogelwch diffyg palmant ).

**8. Cyllid**

Cytunodd pawb i dalu'r sieciau ac arwyddwyd gan y Cynghorwyr Rob Jones a Maldwyn Lewis.

JABRA - £64.99 **001765**
Atgywirion mainc ( Ceri Jones ) - £42.00 **001766**
HMRC - £64.40 **001767**
Cyflog y Clerc - £258.18 **001768**
Coed Nadolig ( G Thomas ) - £360.00 **001769** ( problem wedi codi gyda siec mis diwethaf ).

**9. Materion Ardal**

**9.1** –Brongest – problem ddwr yn y pentref – y Cyngor sy'n gyfrifol am tu allan y clwydi ( Caer Felin / Maes y Felin / y Felin / Ty'r Felin ) ac mae angen ail osod y tarmac.
**9.2** – Mae'r gwrteri ym Mrongest yn llawn cerrig man ac angen eu glanhau.
**9.3** - Ffostrasol – tyllau yn y ffordd eto tu allan y siop a ger y dafarn peryglus i feiciau ac yn ddiweddar cynhaliwyd Ras seiclo 'GB Junior Cyclists'. Gallai damwain angeuol fod wedi digwydd yn ystod y ras hon oherwydd cyflwr y ffordd.
**9.4** – Ffostrasol – mae cymaint o dyfiant ar y cloddiau, anodd gweld ambell arwydd ac hefyd mae angen tynnu chwyn o'r palmwntydd gan fod y tarmac yn codi mewn ambell fan.
**9.5** – Croeslan – Mae'r clawdd yn tyfu dros yr arwyddion ffordd.
**9.6** –Mae arwydd fordd Tractor wedi ei ddwyn rownd y tro o gyfeiriad Blaencilllech.
**9.7** – Mae ffens blastic oren yn dal ger Rhydypentre ac wedi bod yno ers bron i dair mlynedd – aniben i edych arnynt.
**9.8** –Ffostrasol – Mae arwydd 40 Ffostrasol o gyfeiriad Bwlchygroes wedi toddi a bellach yn edrych fel 90.
**9.10** –Coedybryn – de-fib mae Roger wedi cytuno i barhau i ofalu amdano a chynorthwyo Osian. Ar hyn o bryd nes fod Osian yn dechrau'n swyddogol mae'r Cyng Sian Williams wedi cytuno i gadw llygad arno.
**9.11** – Mae'r postyn ar sgwar pentref Coedybryn wedi cael ei beintio gan un o'r pentrefwyr ac mae yn wellaint mawr.
**9.12** – Mae twll wedi ymddangos yn nho cuddfan bws Ffostrasol.

**10. Awdit**

10.1 – Mae cyfrifol eleni wedi mynd at Gwyn Jones yn Aberaeron ac rydym yn disgwyl ei ymateb.

( Nodwyd i ni gael noson hyfryd yn ein Cinio Blynyddol Yn Ffostasol yn ddiweddar a braf fyddai cael gwneud rhywbeth tebyg eto adeg y Nadolig).

( Oherwydd fod newidiadau yn ein Cynghorwyr – efallai byddai yn syniad cael lluniau ar y wefan).

**11. Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Coedybryn ar Fedi'r 3ydd am 7:30yh

Gan nad oedd dim ymhellach i drafod tynnwyd y cyfarfod i ben am 9:25yh.

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

------------------------------------------------------- ------------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) Dyddiad